

**CYNGOR TREF CAERFYRDDIN**  
**PWYLLGOR DIBENION CYFFREDINOL**  
**A GYNHALIWDYD AR 9 IONAWR 2024 AM 7.30YH**

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Siambr y Cyngor, Neuadd Ddinesig San Pedr ac yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

Y Cyng. Peter Hughes Griffiths fu'n cadeirio'r cyfarfod.

**PRESENNOL:** Cynghorwyr: Peter Hughes Griffiths, Angharad Jones Leefe (Fideo), Arwel Lloyd (Fideo), Alun Lenny (Fideo), Miriam Moules (Fideo), Emlyn Schiavone, Russell Sparks (Fideo), Wyn Thomas, Barry Williams (Fideo).

Emma Smith – Clerc i'r Cyngor Tref

Wendy Dickson – Dirprwy Clerc y Dref a Rheolwr Cyllid

**276. Ymddiheuriadau**

Dim ymddiheuriadau.

**277. Datgan buddiannau.**

- (i) Y Cyng. Russell Sparks ar gyfer eitem 278 fel aelod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin.

**Adroddiad Clerc y Dref**

**278. Ceisiadau Cynllunio**

**NODWYD** nad oedd y Cynghorydd Russell Sparks wedi cymryd rhan mewn trafodaethau a gynhaliwyd ynghylch ceisiadau cynllunio oherwydd ei rôl fel aelod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin.

- i. **PL/07013** - Estyniad ochr deulawr (Ailgyflwyno PL/06552 Gwrthodwyd ar 14/11/2023) - 20 Cwnin Hafod, Caerfyrddin, SA31 2AT - **DIM GWRTHWYNEBIAD** i'r cais oherwydd y newid mewn statws o HMO a groesawyd gan aelodau i helpu i liniaru materion parcio ar y stryd.
- ii. **PL/06916** - Amrywio amod 2 (cynlluniau diwygiedig) a chael gwared ar amod 3 (manyllion y cladin) ar PL/01226 i ganiatáu ad-drefnu agoriadau ffenestri a drysau, a newidiadau i ffasadau presennol - Tŷ Myrddin, 16 Stryd y Priordy, Caerfyrddin, SA31 1NA – **DIM GWRTHWYNEBIAD**
- iii. **PL/07077** – Newid defnydd llawr gwaelod o A1 i A2 – 11 Heol Awst, Caerfyrddin, SA31 3AD – **DIM GWRTHWYNEBIAD**
- iv. **PL/07076** – Newid defnydd llawr cyntaf ac ail lawr o barlwr tatŵ i 2 fflat (un ystafell wely) – Tŷ Regent, Maes Nott, Caerfyrddin, SA31 1PG - Roedd yr Aelodau'n dymuno codi eu pryderom ynghylch llygredd sŵn posibl gan sefydliadau cyfagos oherwydd bywyd nos actif, ac felly yr angen i sicrhau bod mesurau di-sain yn cael eu cymryd gan y datblygwyr sy'n sy'n cwblhau'r trawsnewid i atal hyn rhag bod yn broblem.

**279. Materion Priffyrdd**

Dim

**280. Materion Trwyddedu**

Dim

**281. Ystyried y rheol ynglŷn â lliwiau cerrig bedd yn y Fynwent.**

Trafododd yr aelodau y rheolau ynghylch a lliwiau cerrig bedd a ganiateir yn bresennol ym Mynwent Caerfyrddin a chytunwyd y gellid caniatáu lliw ysgafnach o lwyd. Awgrymodd y Cyng. Barry Williams y byddai angen arweiniad clir i sicrhau bod amrywiadau llwyd yn dderbyniol. Gofynnodd yr Aelodau i'r Clerc ymgynghori â seiri maen lleol ac adrodd yn ôl yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**282. Plannu coed a gwrychoedd ym Mharc Johnstown.**

Amlinellodd y Clerc y trafodaethau a gynhaliwyd gyda'r Swyddog Lleoedd Lleol ar gyfer Natur o Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch plannu coed a gwrychoedd ym Mharc/Maes Lles Tre Ioan. Croesawodd y Cyng. Emlyn Schiavone y cynlluniau a gobeithiai y byddai'r coed yn gwella rhagolygon cyffredinol y parc a chyda'r holl Aelodau yn cytuno, **ARGYMHELLWYD** y prosiect i'r Cyngor.

**283. Cronfa Ffyniant Gyffredin – Cymunedau Cynaliadwy 4ydd rownd o geisiadau.**

Rhannodd y Clerc fanylion a chostau gweithgareddau awyr agored a fyddai'n gynhwysol i bob oedran a gallu. Dangoswyd bwrdd tenis awyr agored i'r pwyllgor a fyddai'n hygyrch i gadeiriau olwyn ac hefyd cysgod i bobl yn eu harddegau yn ymgorffori offer pêl-fasged a fyddai'n darparu ardal ar gyfer cymdeithasu ac offer ar gyfer gweithgareddau corfforol. Byddai'r rhain ym Mharc Caerfyrddin a Pharc Tre Ioan gyda'r Clerc yn cynnig y gellid cyflwyno cais am gyllid Adran 106 i ddarparu cysgod ar gyfer Parc Tre Ioan.

Trafododd yr Aelodau addasrwydd yr eitemau hyn, a chyda'r holl Aelodau o blaid. **CYTUNWYD** y byddai'r Clerc yn paratoi a chyflwyno cais am gyllid fel amlinellir uchod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8:04 y.h.**